TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cskills Awards Site Management Safety Training Scheme (SMSTS) Level 3

Yn gryno

Os ydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch pawb ar y safle, gallai'r cwrs hwn fod yn amhrisiadwy. Mae'n rhoi canllaw i chi ar gyfer sicrhau bod y gwaith i gyd yn cael ei wneud yn unol â chyfraith gyfredol, ac yn edrych ar atebolrwydd dros iechyd, diogelwch a lles y gweithwyr ar y safle.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth gyfredol ac arferion gweithio diogel yn niwydiannau amgylchedd adeiledig ac adeiladu

...Unrhyw un sydd wedi neu ar fin ymgymryd â chyfrifoldebau goruchwyliol

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...Deall y cyfrifoldebau cyfreithiol sy'n berthnasol i'ch gweithgareddau gwaith

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs 5-niwrnod hwn yn cwmpasu'r pynciau canlynol:

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
Gosodiad safle
Asesiadau risg a datganiadau dull
Gweithio ar uchder
Sgaffaldiau
Trydan
Cloddiadau
Dymchwel
Gweithio mewn lleoedd cyfyng
Newidiadau diweddar mewn arferion gwaith derbyniol

Cewch eich asesu ar eich cyfranogiad trwy gydol y cwrs, ynghyd ag arholiad 25-cwestiwn sy'n cynnwys cwestiynau amlddewis ac atebion ysgrifenedig byr. Ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, byddwch yn derbyn tystysgrif sy'n ddilys am 5 mlynedd.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

OHERWYDD COVID-19, BYDD Y CWRS HWN YN CAEL EI DDARPARU O BELL

Bydd angen i bawb sy'n cymryd rhan fod â chysylltiad rhyngrwyd da a gliniadur neu gyfrifiadur personol gyda swyddogaeth sain a gwe-gamera.